OFFRWM Y PASG 2021

I'r holl fyd

Boed ein heneidiau oll ar dân
i seinio cân soniarus
o fawl i enw'r sanctaidd Iôr
am ddoniau mor haelionus.
O Arglwydd, dyro inni ras
i'th ffyddlon wasanaethu,
a thrwy dy roddion hael o hyd
i'th hyfryd ogoneddu. Amen.

Thomas Rees 1815-85

Paratowyd gan...

Merched Methodistaidd
ym Mhrydain 2011-2021

ar gyfer...

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

*Byw yn **hael***

Bob Pasg, mae'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain yn gwahodd pobl i gyfrannu i Gronfa'r Genhadaeth Fyd-eang gan ddefnyddio amlenni Offrwm y Pasg.

- A fyddwch mor garedig â defnyddio'r amlen hon ar gyfer eich rhodd, fel y gallwn adhawlio treth trwy gyfrwng Cymorth Rhodd lle bo modd.
- Dylid gwneud sieciau'n daladwy i "Cronfa Cenhadaeth Fyd-eang yr Eglwys Fethodistaidd".
- Fe'ch gwahoddir yn gynnes i wasanaeth a gynhelir ryw dro yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf i gysegru'r rhoddion hyn. Edrychwch allan am bosteri yn rhoi'r manylion, neu holwch weinyddwr eich cylchdaith.

Mae **Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang** yn cefnogi cenhadaeth Duw trwy Bartner-eglwysi mewn gwahanol wledydd ledled y byd, drwy gyfrwng:

- partneriaid cenhadol
- brodorion mewn penodiadau cenhadol
- ysgoloriaethau a hyfforddiant arweinyddiaeth
- grantiau eraill.

Rhowch yn hael os gwelwch yn dda at y gwaith hollbwysig hwn, gan barhau i'w gefnogi yn eich gweddïau drwy'r flwyddyn.

Mudiad hunangynhaliol yw Merched Methodistaidd ym Mhrydain, o fewn yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain. Am wybodaeth bellach, ewch i www.mwib.org.uk.

Mae gwybodaeth am genhadaeth fyd-eang yr Eglwys i'w chael yn www.methodist.org.uk/global-relationships e-bost: gr.admin@methodistchurch.org.uk, ffôn: 020 7486 5502, 25 Marylebone Road, London, NW1 5JR.

Merched Methodistaidd ym Mhrydain 2011-2021

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

*Byw yn **hael***

Photo: Getty images GE312-FR20

Rhif Elusen Cofrestredig 1132208